

prospect

Cymru/Wales

# Senedd 2026

prospect.org.uk

Photo: © Crown copyright (2016)
Visit Wales. All rights reserved.

# Senedd 2026

## Contents

**About Prospect** .......... **4**
**Prospect Union Policy Positions for the 2026 Welsh Senedd Elections** .......... **4**
Prospect's policy priorities, driven by our members .......... 4
**Safeguarding Public Sector Work and Advancing Fairness at Work in a Changing Wales** .......... **5**
Key Policy Asks .......... 5
1. Fair Work and Job Security .......... 5
2. Pay, Terms, and Conditions .......... 5
3. Union Rights and Collective Voice .......... 5
Why This Matters .......... 6
**Protecting Wales' Heritage: Investing in People, Preserving Our Past** .......... **6**
Key Policy Asks .......... 6
1. Reverse Cuts and Invest in the Sector .......... 6
2. Protect Specialist Roles and Skills .......... 6
3. Fair Pay and Conditions .......... 6
4. Union Rights and Fair Work .......... 7
Why This Matters .......... 7
**Safeguarding Wales' Creative Industries: Our Voice, Our Future.** .......... **8**
Key Policy Asks .......... 8
1. Investment .......... 8
2. Engagement .......... 8
3. Skills Development .......... 8
4. Fair Work Practices .......... 8
Why This Matters .......... 8
**Securing Wales' Scientific Future: Fair Work, Innovation, and Just Transition** .......... **9**
Key Policy Asks .......... 9
1. Support a Just Transition for Science and Innovation .......... 9
2. Protect and Promote High-Quality Specialist Roles .......... 9
3. Fair Pay and Conditions .......... 9
4. Union Rights and Collective Voice .......... 9
Why This Matters .......... 10

**Powering a Fairer Future: Clean Energy Jobs, Just Transition, and Workers' Rights ........ 11**
Key Policy Asks ........ 11
1. Deliver a Just Transition for Energy Workers ........ 11
2. Invest in High-Quality Clean Energy Jobs ........ 11
3. Fair Pay and Conditions ........ 11
4. Union Rights and Collective Voice ........ 12
Why This Matters ........ 12
**Investing in the Civil Service ........ 13**
Key Policy Asks ........ 13
Why This Matters ........ 13
**Senedd 2026 – Cymru ........ 14**

Prospect
100 Rochester Row
London SW1P 1JP

Tel: 0300 600 1878

prospect.org.uk

# About Prospect

Prospect is the UK's leading trade union for engineers, managers, and specialists. We represent more than 162,000 members in the UK working across the public and private sectors. This includes over 8000 members in Wales. Prospect represents workers in the civil service and other public bodies as well as in the energy, defence, aviation, heritage, science, and technology sectors. Through our Bectu sector we are the largest union for the creative industries, representing off-screen talent including freelance and self-employed workers.

# Prospect Union Policy Positions for the 2026 Welsh Senedd Elections

The 2026 Senedd reforms are a once in a generation opportunity to strengthen Welsh democracy. But with greater legislative capacity comes greater responsibility to support the public servants who make it all work. Without investment in the workforce, the ambitions of a larger Senedd risk being undermined by burnout, attrition, and inefficiency. Prospect urges all candidates to stand up for workers in Wales and invest in good quality jobs.

## Prospect's policy priorities, driven by our members

- We have been campaigning on political issues for a number of years, both behind the scenes and in public. We are not affiliated to any political party, but we are politically active. This means we can campaign fiercely with, and on behalf of, our members.
- Below you can find a series of policy asks to make work better in Wales, plus some areas which cut across all areas of the economy such as union rights and the future of the world of work.

# Safeguarding Public Sector Work and Advancing Fairness at Work in a Changing Wales

Our members, including those in the Welsh Government, Senedd Commission, and Natural Resources Wales, are the backbone of Welsh public life. They deserve recognition, respect, and robust protections as the demands on their roles increase.

## Key Policy Asks

## 1. Fair Work and Job Security

- **Protect public sector jobs** from outsourcing, casualisation, and budget-driven cuts.
- Ensure that the **expansion of the Senedd**—which will increase legislative scrutiny, committee work, and administrative support—does not lead to overwork or under-resourcing of staff.
- Commit to **workforce planning** that anticipates increased workloads and funds additional staffing where needed.

## 2. Pay, Terms, and Conditions

- Deliver **fair and inflation-proof pay settlements** for all public sector workers, recognising the essential nature of their work.
- Uphold and enhance **terms and conditions**, including flexible working, career development, and mental health support.
- Ensure proper recognition and reward for **specialist and technical roles**, which are often undervalued despite their critical contributions.

## 3. Union Rights and Collective Voice

- Guarantee **full trade union recognition** and access in all public sector workplaces.
- Support **facility time** for union representatives to carry out their duties effectively.
- Promote **social partnership** and meaningful consultation with unions on all workforce-related decisions, especially in relation to the use of efficiency programmes and artificial intelligence.

### 4. Equality, Diversity, and Inclusion

- Embed **equality impact assessments** in all public sector reforms and budget decisions.
- Tackle pay gaps and barriers to progression for underrepresented groups.
- Ensure that the public sector leads by example in creating **inclusive, respectful, and safe workplaces**.

### Why This Matters

Prospect urges all candidates to stand up for public sector professional who serve Wales with dedication and expertise. A fairer stronger Wales depends on a strong public service.

# Protecting Wales' Heritage: Investing in People, Preserving Our Past

Prospect represents professionals and specialists across Wales' heritage institutions, including Amgueddfa Cymru – National Museum Wales, the National Library of Wales, CADW, Heneb and the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales. These institutions are vital to safeguarding the cultural, historical, and environmental legacy of Wales. Yet, they have faced years of underfunding, job losses, and erosion of specialist expertise.

As Wales prepares for a new era of democratic representation with an expanded Senedd in 2026, we urge all candidates to commit to a renewed vision for the heritage sector—one that values its workforce, protects its future, and recognises its role in national identity, education, and tourism.

### Key Policy Asks

## 1. Reverse Cuts and Invest in the Sector

- **Restore and increase core funding** for heritage institutions, reversing cuts of up to 22.3% in recent years.
- Ensure **multi-year funding settlements** to enable long-term planning and sustainability.
- Commit to allocating funds raised through the new Visitor Levy to local heritage institutions and sites, recognising their vital role in Wales' tourism industry.

## 2. Protect Specialist Roles and Skills

- Halt the erosion of **specialist and technical roles** that are essential to conservation, research, and public engagement.
- Fund **succession planning and skills development** to address the loss of expertise due to retirements and redundancies.
- Support **apprenticeships and early-career pathways** to build the next generation of heritage professionals.

## 3. Fair Pay and Conditions

- Deliver fair, inflation-proof pay settlements that reflect the value and complexity of heritage work.
- Ensure **parity of esteem** with other public sector professionals, including access to flexible working, career progression, and wellbeing support.
- Address **pay disparities** and ensure transparent, equitable reward structures.

## 4. Union Rights and Fair Work

- Guarantee **trade union recognition** and access across all heritage institutions.
- Support **collective bargaining** and uphold the principles of **social partnership**.
- Promote **fair work standards**, including job security, dignity at work, and protection from casualisation.

## Why This Matters

Wales' heritage is a national treasure. It is a living, working sector that depends on the dedication of skilled professionals. Years of funding cuts have weakened the sector's resilience and led to the loss of irreplaceable cultural assets but also demoralisation of the workforce that stewards them.

Prospect calls on all Senedd candidates to champion a fairer, better-funded, and more secure future for Wales' heritage sector – one that honours the past by investing in the people who protect it.

# Safeguarding Wales’ Creative Industries: Our Voice, Our Future.

The Bectu Sector of Prospect represents the interests of workers in Wales’ vibrant creative industries, spanning film, television, arts, live events and more. These sectors don’t just drive economic growth but also play a vital role in preserving our language and culture. However, they face unique challenges like job insecurity, specialised skill requirements, and inclusivity barriers.

As Wales prepares for an expanded Senedd, we urge candidates to pledge support for creative industries that prioritise workers, secures its future and celebrates Wales’ global storytelling.

## Key Policy Asks

## 1. Investment

- Boost funding to address Wales’ low cultural spend. A recent report by Arts Council Wales explains that every £1 invested in the arts yields £2.51 in returns.

## Engagement

- Foster regular dialogue with creative unions and ensure union representation on governance boards like Creative Wales Non-Executive Board.

## Skills Development

- Scale up successful initiatives like CULT Cymru to enhance workforce skills, mental-health, and wellbeing.

## Fair Work Practices

- Collaborate with unions to establish equitable hiring processes and promote dignified workplaces.

## Why This Matters

Wales’ creative industries are essential for employment, cultural enrichment, and societal well-being. Investing in these industries is not on only economically wise but also crucial for the nation’s prosperity and global influence.

# Securing Wales' Scientific Future: Fair Work, Innovation, and Just Transition

Prospect represents highly skilled professionals in Wales's growing private science and innovation sector, including members at **Pharmaron**, **Cytiva**, **The Royal Mint**, and **QuidelOrtho**. These workplaces are at the forefront of life sciences, diagnostics, precision manufacturing, and clean energy innovation—sectors vital to Wales' economic resilience and global competitiveness.

We call on all candidates to champion a **vision for science and innovation that is fair, future-focused, and worker-led**.

## Key Policy Asks

## 1. Support a Just Transition for Science and Innovation

- Recognise that the science sector is one of the **core drivers of innovation and economic growth** and is also at the frontier of our national capability and resilience.
- Invest in **clean and digital innovation** that creates high-quality, unionised jobs in Wales.
- Ensure that **public investment in R&D** comes with social value conditions, including fair work, skills development, and local economic benefit.

## Protect and Promote High-Quality Specialist Roles

- Recognise the strategic importance of **STEM professionals** in Wales' private sector and ensure their voices are heard in policymaking.
- Support **STEM skills pipelines**, including apprenticeships, graduate pathways, and lifelong learning.
- Prevent the **offshoring or casualisation** of specialist roles by promoting long-term investment and workforce stability.

## Fair Pay and Conditions

- Ensure that private sector science workers benefit from **fair pay settlements** that reflect their expertise and contribution to national priorities.
- Promote **transparent pay structures**, career progression, and access to flexible working.
- Encourage employers to adopt **Fair Work principles**, including job security, dignity at work, and work-life balance.

## Union Rights and Collective Voice

- Support **trade union recognition** and collective bargaining in the private science sector.

- Ensure that workers have a **genuine voice** in shaping workplace change, especially in areas like automation, AI, and sustainability.
- Promote **social partnership** models that bring together government, employers, and unions to shape the future of work.

## Why This Matters

Wales has a unique opportunity to lead in science, innovation and clean energy growth. This future must be built on **fairness, security and respect for workers.** The private sector is not only a driver for economic growth, but also a source of high-value, high skill employment that must be protected and nurtured. Prospect call on Senedd candidates to commit to a **science-led worker centred future** where innovation and fairness go hand in hand**.**

# Powering a Fairer Future: Clean Energy Jobs, Just Transition, and Workers’ Rights

Prospect represents highly skilled professionals across Wales’ energy, and renewables sector, including those working in offshore wind, solar, hydrogen, and grid infrastructure. As Wales accelerates its transition to a net-zero economy, our members are at the forefront of delivering the infrastructure and innovation needed to meet climate targets. Our members also work across the nuclear sector, including in nuclear decommissioning. Nuclear power is clean and low carbon, homegrown and secure, and provides good, unionised jobs located across the country, and new and continued investment must continue.

The 2026 Senedd elections come at a pivotal moment. Wales has the opportunity to lead the UK in clean energy—but this must be a **Just Transition**: one that delivers **high-quality clean energy jobs**, protects workers’ rights, and ensures no community is left behind

## Key Policy Asks

## 1. Deliver a Just Transition for Energy Workers

- Develop and implement **Just Transition action plans** in partnership with unions, employers, and communities
- Ensure that workers in fossil fuel and legacy sectors are supported with **reskilling, redeployment, and income protection**.
- Prioritise **local employment and supply chains** in renewable and nuclear energy projects, ensuring that the economic benefits of green growth stay in Wales.

## Invest in High-Quality Clean Energy Jobs

- Support the creation of **secure, unionised jobs** in renewable energy, nuclear energy, energy efficiency, and low-carbon infrastructure.
- Ensure that public investment in clean energy includes **social value clauses**—covering fair work, training, and community benefit.
- Back **STEM education and apprenticeships** to build a pipeline of skilled workers for the clean energy economy.

## Fair Pay and Conditions

- Guarantee that clean energy jobs are **good jobs**—with fair pay, safe working conditions, and opportunities for progression.
- Promote **parity of esteem** between public and private sector energy professionals.
- Ensure that new energy projects uphold **Fair Work principles**, including job security, dignity at work, and work-life balance.

## Union Rights and Collective Voice

- Support **trade union recognition** and collective bargaining across the energy and renewables sector.
- Involve unions in the design and delivery of energy transition strategies.
- Uphold the role of unions in ensuring that technological change and decarbonisation are managed **with, not to**, the workforce.

## Why This Matters

Wales has the natural resources and talent to be a leader in clean energy. But the transition to net zero must be **fair, inclusive, and worker-led**. Without strong protections and investment in people, the clean economy risks replicating the inequalities of the past.

Prospect calls on all Senedd candidates to commit to a **Just Transition that works for workers**—where climate action and social justice go hand in hand.

# Investing in the Civil Service

A strong civil service is essential for delivering effective governance and public services. Prospect advocates for investment in skills, fair pay, and workforce planning to prevent attrition and maintain high standards. Years of pay erosion and underfunding have weakened capacity, risking service quality.

## Key Policy Asks

1. Commit to long-term workforce planning and skills development, especially in STEM and digital roles.
2. Deliver fair, inflation-proof pay settlements to reverse a decade of real-terms pay cuts.
3. Reduce reliance on costly consultants by investing in in-house expertise and career pathways.
4. Embed social partnership principles in civil service reform, ensuring union voices shape decisions.

## Why This Matters

A well-resourced civil service is the backbone of effective governance. Years of pay erosion and underfunding have led to skills shortages and reliance on costly consultants. Without investment in people, the ambitions of an expanded Senedd and complex policy challenges—such as climate change and digital transformation—cannot be delivered. Fair pay and workforce planning are essential to maintain capacity, expertise, and public trust.

# Senedd 2026 – Cymru

## Cynnwys


**Sefyllfa Bolisi Undeb Prospect ar gyfer Etholiadau Senedd Cymru 2026 .................. 16**

Dyma flaenoriaethau polisi Prospect, sy'n cael eu hybu gan ein haelodau ..................... 16

**Diogelu Gwaith Sector Cyhoeddus a Hybu Tegwch yn y Gwaith mewn Cymru sy'n Newid ........ 17**

Y Prif Ofynion Polisi ........ 17

1. Gwaith Teg a Sicrwydd Swyddi ........ 17
2. Cyflog, Telerau, ac Amodau ........ 17
3. Hawliau Undebau a Llais ar y Cyd ........ 17
4. Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant ........ 17

Pam y mae hyn yn Bwysig ........ 18

**Diogelu Treftadaeth Cymru: Buddsoddi mewn Pobl, Gwarchod ein Gorffennol ........ 18**

Y Prif Ofynion Polisi ........ 18

1. Dad-wneud Toriadau a Buddsoddi yn y Sector ........ 18
2. Diogelu Rolau a Sgiliau Arbenigwyr ........ 18
3. Cyflog ac Amodau Teg ........ 18
4. Hawliau Undebau a Gwaith Teg ........ 19

Pam y mae hyn yn Bwysig ........ 19

**Diogelu Diwydiannau Creadigol Cymru: Ein Llais, Ein Dyfodol ........ 19**

Y Prif Ofynion Polisi ........ 19

1. Buddsoddiad ........ 19
2. Ymgysylltu ........ 20
3. Datblygu Sgiliau ........ 20
4. Arferion Gwaith Teg ........ 20

Pam y mae hyn yn Bwysig ........ 20

**Sicrhau Dyfodol Gwyddonol Cymru: Gwaith Teg, Arloesi, a Phontio Teg ........ 20**

Y Prif Ofynion Polisi ........ 20

1. Cefnogi Pontio Teg ar gyfer Gwyddoniaeth ac Arloesi ........ 20
2. Diogelu a Hyrwyddo Swyddi Arbenigol Da ........ 21
3. Cyflog ac Amodau Teg ........ 21
4. Hawliau Undebau a Llais ar y Cyd ........ 21

Pam y mae hyn yn Bwysig ........ 21

**Grymuso Dyfodol Tecach: Swyddi Ynni Glân, Pontio Teg, a Hawliau Gweithwyr ...... 22**
Y Prif Ofynion Polisi ........ 22
1. Darparu Pontio Teg i Weithwyr Ynni ........ 22
2. Buddsoddi mewn Swyddi Ynni Glân Da ........ 22
3. Cyflog ac Amodau Teg ........ 22
4. Hawliau Undebau a Llais ar y Cyd ........ 23
Pam y mae hyn yn Bwysig........ 23
**Buddsoddi yn y Gwasanaeth Sifil ........ 23**
Y Prif Ofynion Polisi ........ 23
Pam y mae hyn yn Bwysig........ 23

Prospect
100 Rochester Row
London SW1P 1JP

Tel: 0300 600 1878

prospect.org.uk

# Sefyllfa Bolisi Undeb Prospect ar gyfer Etholiadau Senedd Cymru 2026

Mae diwygiadau Senedd 2026 yn gyfle unwaith mewn oes i gryfhau democratiaeth Cymru. Ond mae mwy o gapasiti deddfwriaethol yn golygu mwy o gyfrifoldeb i gefnogi'r gweision cyhoeddus sy'n gwneud i bopeth weithio. Heb fuddsoddiad yn y gweithlu, mae perygl i'r uchelgais o Senedd fwy gael ei thanseilio gan ddiffygiad staff, colli staff, ac aneffeithlonrwydd. Mae Prospect yn annog pob ymgeisydd i sefyll dros weithwyr yng Nghymru a sicrhau buddsoddiad mewn swyddi da.

## Dyma flaenoriaethau polisi Prospect, sy'n cael eu hybu gan ein haelodau

- Rydym wedi bod yn ymgyrchu ar faterion gwleidyddol ers blynyddoedd, y tu ôl i'r llenni ac yn gyhoeddus. Nid ydym yn gysylltiedig â phlaid wleidyddol, ond rydym yn gweithredu'n wleidyddol. Mae hyn yn golygu y gallwn ymgyrchu'n frwd gyda'n haelodau, ac ar eu rhan.
- Isod, fe welwch gyfres o ofynion polisi er mwyn gwneud gwaith yn well yng Nghymru, ynghyd â rhai meysydd sy'n torri ar draws pob agwedd ar yr economi, megis hawliau undebau a dyfodol byd gwaith.

# Diogelu Gwaith Sector Cyhoeddus a Hybu Tegwch yn y Gwaith mewn Cymru sy'n Newid

Ein haelodau, gan gynnwys y rhai yn Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, a Chyfoeth Naturiol Cymru, yw asgwrn cefn bywyd cyhoeddus Cymru. Maent yn haeddu cydnabyddiaeth, parch, ac amddiffyniadau cadarn wrth i'r gofynion sydd ynghlwm wrth eu rolau gynyddu.

## Y Prif Ofynion Polisi

## 1. Gwaith Teg a Sicrwydd Swyddi

- **Diogelu swyddi'r sector cyhoeddus** rhag contractau allanol, swyddi dros dro, a thoriadau cyllidebol.
- Sicrhau na fydd **ehangu'r Senedd**—a fydd yn golygu mwy o waith craffu ar ddeddfwriaeth, gwaith pwyllgor, a chefnogaeth weinyddol—yn arwain at orweithio neu brinder staff.
- Ymrwymo i waith **cynllunio gweithlu** sy'n rhagweld cynnydd mewn llwyth gwaith ac sy'n ariannu staff ychwanegol lle bo angen.

## Cyflog, Telerau, ac Amodau

- Darparu **setliadau cyflog teg sy'n ystyried chwyddiant** i holl weithwyr y sector cyhoeddus, gan gydnabod bod eu gwaith yn hanfodol.
- Cefnogi a gwella **telerau ac amodau**, gan gynnwys trefniadau gweithio hyblyg, datblygu gyrfa, a chymorth iechyd meddwl.
- Sicrhau cydnabyddiaeth a thâl priodol ar gyfer **swyddi arbenigol a thechnegol**, nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol bob amser er gwaethaf eu cyfraniad hollbwysig.

## Hawliau Undebau a Llais ar y Cyd

- Gwarantu **cydnabyddiaeth lawn o undebau llafur** a sicrhau mynediad at undeb ym mhob gweithle yn y sector cyhoeddus.
- Cefnogi **amser cyfleuster** i alluogi cynrychiolwyr undebau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.
- Hyrwyddo **partneriaeth gymdeithasol** ac ymgynghori ystyrlon gydag undebau ym mhob penderfyniad sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, yn enwedig mewn cysylltiad â defnyddio rhaglenni effeithlonrwydd a deallusrwydd artiffisial.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant

- Ymwreiddio **asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb** ym mhob elfen ar ddiwygio'r sector cyhoeddus ac mewn penderfyniadau cyllidebol.
- Mynd i'r afael â bylchau rhwng cyflogau a rhwystrau sy'n atal grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli rhag symud ymlaen yn eu gyrfa.

- Sicrhau bod y sector cyhoeddus yn arwain drwy esiampl drwy greu **gweithleoedd cynhwysol, parchus, a diogel**.

## Pam y mae hyn yn Bwysig

Mae Prospect yn annog pob ymgeisydd i sefyll dros weithwyr proffesiynol yn y sector cyhoeddus sy'n gwasanaethu Cymru ag ymroddiad ac arbenigedd. Mae Cymru gryfach a thecach yn dibynnu ar wasanaeth cyhoeddus cryf.

# Diogelu Treftadaeth Cymru: Buddsoddi mewn Pobl, Gwarchod ein Gorffennol

Mae Prospect yn cynrychioli gweithwyr proffesiynol ac arbenigwyr yn holl sefydliadau treftadaeth Cymru, gan gynnwys Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, CADW, Heneb a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae'r sefydliadau hyn yn hanfodol er mwyn diogelu gwaddol diwylliannol, hanesyddol, ac amgylcheddol Cymru. Ac eto maent wedi wynebu blynyddoedd o danariannu, colli swyddi, ac erydu arbenigedd arbenigol.

Wrth i Gymru baratoi ar gyfer cyfnod newydd o gynrychiolaeth ddemocrataidd â Senedd fwy yn 2026, rydym yn annog pob ymgeisydd i ymrwymo i weledigaeth newydd ar gyfer y sector treftadaeth—un sy'n gwerthfawrogi ei weithlu, yn diogelu ei ddyfodol, ac yn cydnabod ei rôl mewn hunaniaeth genedlaethol, addysg, a thwristiaeth.

## Y Prif Ofynion Polisi

## 1. Dad-wneud Toriadau a Buddsoddi yn y Sector

- **Adfer a chynyddu cyllid craidd** i sefydliadau treftadaeth, dad-wneud toriadau o hyd at 22.3% yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Sicrhau **setliadau cyllid amlflwyddyn** er mwyn galluogi cynllunio hirdymor a chynaliadwyedd.
- Ymrwymo i ddyrannu cyllid a godwyd drwy'r Ardoll Ymwelwyr newydd i sefydliadau a safleoedd treftadaeth, gan gydnabod eu rôl hanfodol yn niwydiant ymwelwyr Cymru.

## Diogelu Rolau a Sgiliau Arbenigwyr

- Atal erydiad **rolau arbenigol a thechnegol** sy'n hanfodol i gadwraeth, ymchwil, ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Ariannu **cynllunio ar gyfer olyniaeth a datblygu sgiliau** er mwyn mynd i'r afael â cholli arbenigedd o ganlyniad i ymddeoliadau a diswyddiadau.
- Cefnogi **prentisiaethau a llwybrau gyrfa gynnar** er mwyn adeiladu'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol ym maes treftadaeth.

## Cyflog ac Amodau Teg

- Darparu **setliadau cyflog teg, sy'n ystyried chwyddiant** ac sy'n adlewyrchu gwerth a chymhlethdod gwaith treftadaeth.

- Sicrhau'r **un parch** â gweithwyr proffesiynol eraill yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys mynediad at weithio hyblyg, datblygiad gyrfaol, a chefnogi llesiant.
- Mynd i'r afael â **gwahaniaethau mewn tâl** a sicrhau strwythurau gwobrwyo tryloyw, a theg.

## Hawliau Undebau a Gwaith Teg

- Gwarantu **cydnabyddiaeth o undebau llafur** a sicrhau mynediad at undeb ym mhob sefydliad treftadaeth.
- Cefnogi **cydfargeinio** a chefnogi egwyddorion **partneriaeth gymdeithasol**.
- Hyrwyddo **safonau gwaith teg**, gan gynnwys sicrwydd swyddi, urddas yn y gwaith, a diogelwch rhag swyddi dros dro.

## Pam y mae hyn yn Bwysig

Mae treftadaeth Cymru yn drysor cenedlaethol. Mae'n sector gweithredol, byw sy'n dibynnu ar ymroddiad gweithwyr proffesiynol medrus. Mae blynyddoedd o doriadau cyllid wedi gwanhau gwydnwch y sector ac wedi arwain at golli asedau diwylliannol amhrisiadwy a hefyd at ddigalondid yn y gweithlu sy'n gofalu amdanynt.

Mae Prospect yn galw ar holl ymgeiswyr y Senedd i hyrwyddo dyfodol tecach, sy'n cael ei ariannu'n well, ac sy'n fwy diogel i sector treftadaeth Cymru – un sy'n parchu'r gorffennol drwy fuddsoddi yn y bobl sy'n ei warchod.

# Diogelu Diwydiannau Creadigol Cymru: Ein Llais, Ein Dyfodol

Mae Sector Bectu Prospect yn cynrychioli buddiannau gweithwyr yn niwydiannau creadigol bywiog Cymru, sy'n rhychwantu ffilm, teledu, y celfyddydau, digwyddiadau byw a rhagor. Mae'r sectorau hyn yn hybu twf economaidd a hefyd yn chwarae rôl hanfodol er mwyn gwarchod ein hiaith a'n diwylliant. Serch hynny, maent yn wynebu heriau unigryw fel ansicrwydd swyddi, gofynion sgiliau arbenigol, a rhwystrau cynhwysiant.

Wrth i Gymru baratoi ar gyfer Senedd fwy, rydym yn annog ymgeiswyr i addo cefnogaeth i ddiwydiannau creadigol sy'n blaenoriaethu gweithwyr, yn sicrhau eu dyfodol ac yn dathlu straeon Cymru ar hyd a lled y byd.

## Y Prif Ofynion Polisi

## 1. Buddsoddiad

- Hybu cyllid i fynd i'r afael â gwariant diwylliannol isel Cymru. Mae adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn egluro bod pob £1 sy'n cael ei buddsoddi yn y celfyddydau yn rhoi £2.51 yn ôl.

## Ymgysylltu

- Meithrin deialog reolaidd gydag undebau creadigol a sicrhau bod undebau'n cael eu cynrychioli ar fyrddau llywodraethu fel Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol.
- 

## Datblygu Sgiliau

- Datblygu cynlluniau llwyddiannus fel CULT Cymru er mwyn gwella sgiliau, iechyd meddwl, a llesiant gweithwyr.

## Arferion Gwaith Teg

- Cydweithio ag undebau er mwyn sefydlu prosesau recriwtio teg a hyrwyddo gweithleoedd sy'n dangos urddas.

## Pam y mae hyn yn Bwysig

Mae diwydiannau creadigol Cymru yn hanfodol ar gyfer cyflogaeth, cyfoethogi diwylliannol, a llesiant cymdeithasol. Mae buddsoddi yn y diwydiannau hyn yn ddoeth o safbwynt economaidd, ac mae hefyd yn hollbwysig ar gyfer ffyniant y genedl a dylanwad byd-eang.

# Sicrhau Dyfodol Gwyddonol Cymru: Gwaith Teg, Arloesi, a Phontio Teg

Mae Prospect yn cynrychioli gweithwyr proffesiynol medrus iawn mewn sector gwyddoniaeth ac arloesi sy'n datblygu yng Nghymru, gan gynnwys aelodau yn **Pharmaron**, **Cytiva**, **Y Bathdy Brenhinol**, a **QuidelOrtho**. Mae'r gweithleoedd hyn yn flaenllaw ym maes gwyddorau bywyd, diagnosteg, gweithgynhyrchu manwl-gywir, ac arloesiadau ynni glân—sectorau sy'n hanfodol ar gyfer gwydnwch economaidd ac sy'n galluogi Cymru i fod yn gystadleuol yn fyd-eang.

Rydym yn galw ar bob ymgeisydd i hyrwyddo **gweledigaeth ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesi sy'n deg, yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac yn cael ei harwain gan y gweithwyr**.

## Y Prif Ofynion Polisi

## 1. Cefnogi Pontio Teg ar gyfer Gwyddoniaeth ac Arloesi

- Cydnabod bod y sector gwyddoniaeth yn o'r **ffactorau creiddiol sy'n hybu arloesi a thwf economaidd**, a'i fod hefyd ar reng flaen ein gallu cenedlaethol a'n gwydnwch.
- Buddsoddi mewn **arloesi glân a gwasanaethau digidol** sy'n creu swyddi da, sy'n cael eu cynrychioli gan undebau yng Nghymru.

- Sicrhau bod amodau gwerth cymdeithasol ynghlwm wrth **fuddsoddiad cyhoeddus mewn ymchwil a datblygu**, gan gynnwys gwaith teg, datblygu sgiliau, a budd economaidd lleol.

## Diogelu a Hyrwyddo Swyddi Arbenigol Da

- Cydnabod pwysigrwydd strategol **gweithwyr proffesiynol STEM** yn sector preifat Cymru a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed wrth lunio polisïau.
- Cefnogi **dulliau o gyflenwi sgiliau STEM**, gan gynnwys prentisiaethau, llwybrau graddedigion, a dysgu gydol oes.
- Sicrhau nad yw rolau arbenigol yn **cael eu lleoli dramor neu eu troi'n rolau dros dro** drwy hyrwyddo buddsoddiad hirdymor a sefydlogrwydd yn y gweithlu.

## Cyflog ac Amodau Teg

- Sicrhau bod gweithwyr gwyddoniaeth y sector preifat yn elwa o **setliadau cyflog teg** sy'n adlewyrchu eu harbenigedd a'u cyfraniad i flaenoriaethau cenedlaethol.
- Hyrwyddo **strwythurau cyflog tryloyw**, datblygiad gyrfaol, a chyfleoedd ar gyfer dulliau gweithio hyblyg.
- Annog cyflogwyr i fabwysiadu **egwyddorion Gwaith Teg**, gan gynnwys sicrwydd swyddi, urddas yn y gwaith, a chydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

## Hawliau Undebau a Llais ar y Cyd

- Cefnogi **cydnabyddiaeth o undebau llafur** a chydfargeinio yn y sector gwyddoniaeth preifat.
- Sicrhau bod gweithwyr yn cael **llais go iawn** yn y broses o ddylanwadu ar newid yn y gweithle, yn enwedig mewn meysydd fel awtomeiddio, deallusrwydd artiffisial, a chynaliadwyedd.
- Hyrwyddo modelau **partneriaeth gymdeithasol** sy'n dod â'r llywodraeth, cyflogwyr, ac undebau at ei gilydd i ddylanwadu ar ddyfodol gwaith.

## Pam y mae hyn yn Bwysig

Mae gan Gymru gyfle unigryw i arwain mewn gwyddoniaeth, arloesi, a thwf ynni glân. Rhaid i'r dyfodol hwn gael ei adeiladu ar **degwch, sicrwydd a pharch tuag at weithwyr.** Mae'r sector preifat yn sbarduno twf economaidd, ac mae hefyd yn ffynhonnell cyflogaeth gwerth uchel, a sgiliau medrus y mae'n rhaid eu diogelu a'u meithrin. Mae Prospect yn galw ar ymgeiswyr ar gyfer y Senedd i ymrwymo i **ddyfodol sy'n cael ei arwain gan wyddoniaeth ac sy'n canolbwyntio ar weithwyr**, lle mae arloesi a thegwch yn mynd law yn llaw**.**

# Grymuso Dyfodol Tecach: Swyddi Ynni Glân, Pontio Teg, a Hawliau Gweithwyr

Mae Prospect yn cynrychioli gweithwyr proffesiynol medrus iawn ar draws sector ynni, a sector ynni adnewyddadwy Cymru, gan gynnwys y rhai sy’n gweithio ym maes ynni gwynt ar y môr, solar, hydrogen, a seilwaith grid. Wrth i Gymru gyflymu’r gwaith o bontio i economi sero net, mae ein haelodau yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddarparu’r seilwaith a’r arloesi sydd ei angen er mwyn cyflawni targedau hinsawdd. Mae ein haelodau hefyd yn gweithio yn y sector niwclear, gan gynnwys datgomisiynu niwclear. Mae pŵer niwclear yn lân ac yn isel o ran carbon, yn cael ei gynhyrchu gartref ac yn ddiogel. Mae’n darparu swyddi da, sy’n cael eu cynrychioli gan undebau, ac sydd wedi’u lleoli ledled y wlad, a rhaid i fuddsoddiad newydd a pharhaus barhau.

Mae etholiadau Senedd 2026 yn digwydd ar adeg hollbwysig. Mae gan Gymru gyfle i arwain y DU ym maes ynni glân—ond rhaid i hwn fod yn **Bontio Teg**: un sy’n darparu **swyddi ynni glân da**, yn diogelu hawliau gweithwyr, ac yn sicrhau nad yw unrhyw gymuned yn cael ei gadael ar ôl.

## Y Prif Ofynion Polisi

## 1. Darparu Pontio Teg i Weithwyr Ynni

- Datblygu a gweithredu **cynlluniau gweithredu Pontio Teg** mewn partneriaeth ag undebau, cyflogwyr, a chymunedau.
- Sicrhau bod gweithwyr yn y sectorau tanwydd ffosil a gwaddol yn cael cefnogaeth ag **ailsgilio, adleoli, a diogelu incwm**.
- Blaenoriaethu **cyflogaeth leol a chadwyni cyflenwi** mewn prosiectau ynni adnewyddadwy ac ynni niwclear, gan sicrhau bod buddion economaidd twf gwyrdd yn aros yng Nghymru.

## Buddsoddi mewn Swyddi Ynni Glân Da

- Helpu i greu **swyddi diogel, sy’n cael eu cynrychioli gan undebau** ym meysydd ynni adnewyddadwy, ynni niwclear, effeithlonrwydd ynni, a seilwaith carbon isel.
- Sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus mewn ynni glân yn cynnwys **amodau gwerth cymdeithasol**—gan gynnwys gwaith teg, hyfforddiant, a budd cymunedol.
- Cefnogi **addysg a phrentisiaethau STEM** er mwyn datblygu cyflenwad o weithwyr medrus ar gyfer yr economi ynni gwyrdd.

## Cyflog ac Amodau Teg

- Gwarantu bod swyddi ynni glân yn **swyddi da**—â chyflog teg, amodau gwaith diogel, a chyfleoedd i ddatblygu gyrfa.
- Hyrwyddo **yr un parch** rhwng gweithwyr proffesiynol ym maes ynni yn y sector cyhoeddus ac yn y sector preifat.

- Sicrhau bod prosiectau ynni newydd yn cefnogi **egwyddorion Gwaith Teg**, gan gynnwys sicrwydd swyddi, urddas yn y gwaith, a chydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

## Hawliau Undebau a Llais ar y Cyd

- Cefnogi **cydnabyddiaeth o undebau llafur** a chydfargeinio ar draws y sector ynni a'r sector ynni adnewyddadwy.
- Cynnwys undebau yn y gwaith o gynllunio a gweithredu strategaethau pontio ar gyfer ynni.
- Cefnogi rôl undebau yn y gwaith o sicrhau bod newid technolegol a datgarboneiddio yn cael eu rheoli **gyda'r** gweithlu, **nid iddo**.

## Pam y mae hyn yn Bwysig

Mae gan Gymru yr adnoddau naturiol a'r talentau i fod yn arweinydd ym maes ynni glân. Ond rhaid i'r pontio i sero net fod yn **deg, yn gynhwysol, ac yn cael ei arwain gan y gweithwyr**. Heb fesurau diogelu cryf a buddsoddiad mewn pobl, mae perygl i'r economi werdd atgynhyrchu anghydraddoldebau'r gorffennol.

Mae Prospect yn galw ar holl ymgeiswyr y Senedd i ymrwymo i **Bontio Teg sy'n gweithio i weithwyr**—lle mae gweithredu ar newid hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol yn mynd law yn llaw.

# Buddsoddi yn y Gwasanaeth Sifil

Mae gwasanaeth sifil cryf yn hanfodol er mwyn darparu trefniadau llywodraethu a gwasanaethau cyhoeddus effeithiol. Mae Prospect yn eiriol dros fuddsoddiad mewn sgiliau, cyflog teg, a chynllunio gweithlu er mwyn sicrhau nad ydym yn colli staff ac er mwyn cadw safonau uchel. Mae blynyddoedd o erydu cyflog a thangyllido wedi gwanhau capasiti, gan roi ansawdd y gwasanaeth yn y fantol.

## Y Prif Ofynion Polisi

1. Ymrwymo i gynllunio gweithlu hirdymor a datblygu sgiliau, yn enwedig ym maes STEM a rolau digidol.
2. Darparu setliadau cyflog teg, sy'n ystyried chwyddiant er mwyn dad-wneud degawd o doriadau cyflog mewn termau real.
3. Lleihau dibyniaeth ar ymgynghorwyr costus drwy fuddsoddi mewn arbenigedd mewnol a llwybrau gyrfaol.
4. Ymwreiddio egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yn y gwaith o ddiwygio'r gwasanaeth sifil, gan sicrhau bod lleisiau undebau yn dylanwadu ar benderfyniadau.

## Pam y mae hyn yn Bwysig

Gwasanaeth sifil sydd â digon o staff yw asgwrn cefn llywodraethu effeithiol. Mae blynyddoedd o erydu cyflogau a thangyllido wedi arwain at brinder sgiliau a dibyniaeth ar

ymgynghorwyr costus. Heb fuddsoddiad mewn pobl, ni ellir cyflawni'r uchelgais o Senedd fwy a mynd i'r afael â heriau polisi cymhleth—megis newid hinsawdd a thrawsnewid digidol. Mae cyflog teg a chynllunio gweithlu yn hanfodol er mwyn cynnal capasiti, arbenigedd, ac ymddiriedaeth y cyhoedd.